Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

Paratowch eich eiddo am lifogydd

Canllaw ar gyfer perchnogion tai a busnesau bach

Ni yw Asiantaeth yr Amgylchedd. Ein gwaith ni yw gofalu am eich amgylchedd chi, a'i wneud yn lle gwell – i chi, ac i genedlaethau'r dydodol.

Eich amgylchedd yw'r aer a anadlwch, y dŵr a yfwch, a'r ddaear y cerddwch arni. Gan weithio gyda busnesau, y Llywodraeth a'r gymdeithas gyfan, yr ydym yn gwneud eich amgylcheddyn lanach ac yn iachach.

Asiantaeth yr Amygylchedd. Allan yn y maes, yn gwneud eich amgylchedd yn lle gwell.

Cyhoeddwyd gan:

Asiantaeth y Amgylchedd

Rio House
Waterside Drive, Aztec West
Almondsbury, Bristol BS32 4UD
Tel: 0870 8506 506
E-bost: enquiries@environment–agency.gov.uk
www.asiantaeth–amgylchedd.gov.uk

© Asiantaeth yr Amgylchedd

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhychu'r ddogfen hon â chaniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd o flaen llaw.

Mae dros 5.5 miliwn eiddo yng Nghymru a Lloegr mewn perygl o lifogydd o afonydd, y môr neu ddŵr wyneb. Daw hynny i un allan o bob chwech, sy'n golygu ei bod yn dra thebygol bod eich cartref neu eich busnes chi'n un o'r eiddo hyn.

Mae'n talu i baratoi am lifogydd

Os bydd eich cartref neu fusnes yn dioddef llifogydd, gall fod yn ddrud, nid yn unig o safbwynt arian ac amser, ond hefyd o ran anghyfleustra a diflastod.

Tra'i bod yn amhosibl gwneud eiddo'n hollol ddiddos rhag llifogydd, mae llawer o bethau gallwch eu gwneud er mwyn lleihau'r difrod y gall llifogydd ei achosi.

Y peth allweddol yw gweithredu nawr fel eich bod yn barod os ceir llifogydd yn eich ardal chi.

Ydw i mewn perygl o lifogydd?

Mae angen i chi ganfod p'un ai ydych ai peidio. Gallai arbed arian i chi, eich helpu i ddiogelu'ch hunan a'ch eiddo – efallai gallai achub eich bywyd hyd yn oed.

Hyd yn oed os nad yw eich cartref neu fusnes mewn perygl uniongyrchol o lifogydd o afonydd neu'r môr, gallech barhau i gael eich effeithio gan lifogydd dŵr wyneb neu ddŵr daear.

Ymwelwch â'n gwefan www.asiantaeth-amgylchedd.gov.uk neu ffoniwch Floodline ar 0845 988 1188 er mwyn gweld p'un ai yw eich eiddo neu fusnes mewn perygl ac am wybodaeth ddefnyddiol arall ar lifogydd.

Nawr eich bod yn deall y perygl, dyma beth fedrwch chi ei wneud.

Diogelwch eich eiddo a'ch meddiannau

P'un ai ydych yn rhentu neu'n berchen ar eich cartref neu eiddo busnes, mae llawer o bethau gallwch eu gwneud er mwyn helpu eich hunan. Mae rhai ohonynt yn bethau syml a thros dro tra bod eraill yn golygu gwneud gwaith adeileddol parhaol.

Gallwch hefyd wneud gwelliannau fel bod llifddwr, hyd yn oed os caiff fynediad i'ch eiddo, yn gwneud llai o

ddifrod, ac felly mae'r gwaith o sychu a glanhau'n gyflymach ac yn haws. Mae hyn yn golygu y gallech chi symud yn ôl i'ch cartref neu ailagor y busnes yn gyflymach o lawer.

Y peth pwysicaf yw paratoi nawr trwy brynu a gosod cynhyrchion llifogydd o flaen llaw. Peidiwch ag aros tan fod llifogydd yn edrych yn debygol, oherwydd ni fydd gennych amser i brynu na gosod y mesurau yn eu lle.

Ceisiwch gadw llifddwr allan:

•**Drysau:**prynwch fyrddau llifogydd at y pwrpas y gellir eu gosod pan fod llifogydd ar fin dod. Gallwch hefyd godi trothwyon drysau.
• **Lloriau:** codwch gyrsiau bric gwrth-leithder. Gall selio lloriau ('tancio') atal dŵr rhag codi drwy'r ddaear.
• **Briciau awyru:** prynwch gaeadau a ddyluniwyd yn arbennig sy'n hawdd i'w gosod dros friciau awyru.
• **Draeniau a phibellau:** ffitiwch falfiau unffordd ar ddraeniau a mewnbibellau ac allbibellau dŵr

....ond derbyniwch y gallai llifddwr ddod i mewn.

Mewn llifogydd mwy o faint mae angen i hyn ddigwydd mewn gwirionedd oherwydd fel arall gallai pwysau'r dŵr tu allan achosi i'r adeilad ddymchwel.

Dyma rai pethau y gallwch eu gwneud er mwyn lleihau'r difrod y medrai llifddwr ei achosi tu mewn i adeilad:

• **Silffoedd:** rhowch eitemau nad ellir eu hadnewyddu neu sy'n werthfawr ar silffoedd sydd wedi'u gosod yn uchel ar y mur.
• **Adloniant cartref:** gosodwch eich offer awdio-gweledol, er enghraifft eich set deledu a hei-ffei, ar y wal oddeutu 1.5 medr uwchben lefel y llawr.
• **Sgertin:** gosodwch fyrddau sgertin sy'n gallu gwrthsefyll dŵr, neu farneisiwch nhw.
• **Pwmp:** gosodwch bwmp mewn seler neu ofod dan y llawr er mwyn gwagio llifddwr.
• **Waliau:** sych-leiniwch. Defnyddiwch blastrfwrdd llorweddol, neu blastr wedi'i seilio ar galch yn lle gypswm. Meddwch ar system draenio arbennig ar gyfer waliau ceudod.
• **Lloriau:** gosodwch deils gyda matiau yn hytrach na charpedi gosod, sydd angen eu hadnewyddu'n aml ar ôl llifogydd.
• **Drysau a ffenestri:** gosodwch ffenestri a drysau synthetig neu wedi'u cwyro.
• **Cegin ac ystafell ymolchi:** defnyddiwch ddeunyddiau sy'n gallu gwrthsefyll dŵr fel dur gloyw, plastig neu bren solet yn hytrach na bwrdd sglodion. Lle bynnag y bo modd, codwch oergelloedd a chyfarpar arall ar blinth.
• **Dyfeisiau trydanol:** codwch socedau trydanol, blychau ffiws, paneli rheoli a weiars i o leiaf 1.5


Unedau a chyfarpar cegin
Drysau a ffenestri
Lloriau
Silffoedd
Socedau trydanol
Setiau teledu a hei-ffei
Caeadau briciau awyru
Waliau
Draeniau a phibellau
Sachau llifogydd
Byrddau drysau

medr uwch ben lefel y llawr. Os ydych yn ailweirio, dewch â'r ceblau i lawr y wal i'r soced wedi'i godi fel nad effeithir arnynt.

Faint fydd hyn ei gostio?

Bydd cynyddu gallu eich eiddo i wrthsefyll llifddwr yn cyfyngu ar y diflastod a'r difrod a achosir gan lifogydd, sy'n golygu llai o waith trwsio drud A threulio llai o amser allan o'ch cartref neu eiddo busnes.

Bydd y gost o brynu a gosod cynhyrchion er mwyn cadw llifddwr allan o'ch eiddo yn dibynnu ar faint eich eiddo a'r math o lifogydd rydych eisiau gwarchod rhagddynt.

Er enghraifft, yn ôl yr ABI, gallai gwarchod eich eiddo rhag llifogydd bas gostio rhwng £2,000 a £6,000.

Bydd cadw llifddwr allan yn ystod cyfnodau o lifogydd hirfaith yn golygu newidiadau mwy a medrai gostio rhwng £20,000 a £40,000.

Prynu cynhyrchion

Mae amrywiaeth o gynhyrchion gallwch eu prynu. Gallwch ganfod rhestr gynhwysfawr o'r rhain yn y cyfeiriadur 'The Blue Pages' ar wefan y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol www.floodforum.org.uk.

Mae'r Blue Pages yn gyfeiriadur annibynnol o gynhyrchion, adeiladwyr, cyflenwyr ac yswirwyr.

Fe'i lluniwyd er mwyn darparu gwybodaeth ynghylch pob agwedd ar gynhyrchion gwarchod rhag a gwrthsefyll llifogydd.

Gwirio ansawdd

Pan fyddwch yn prynu cynnyrch llifogydd, gwiriwch ei fod wedi cael ei roi ar brawf yn gywir a'i fod yn atebol i'r dasg – dylai arddangos y Nod Barcut BSI neu ardystiad cyfatebol ar gyfer y safon ansawdd genedlaethol PAS 1188.

Mae'r Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) yn cynnal rhestr o'r holl wneuthurwyr cynhyrchion gwarchod rhag llifogydd a roddwyd ar brawf ac sydd wedi ennill ardystiad Nod Barcut. Gweler www.kitemark.com

Mae'r Gymdeithas Gwarchod rhag Llifogydd yn cynrychioli gwneuthurwyr a dylunwyr cynhyrchion gwarchod rhag llifogydd. Gweler ww.floodprotectionassoc.co.uk

Yswiriant

Gwiriwch eich polisïau yswiriant adeiladau a chynnwys er mwyn gweld pa sicrwydd maent yn ei ddarparu ar gyfer difrod llifogydd.

Hefyd, os byddwch yn gwneud newidiadau i'ch eiddo fel ei fod yn gallu gwrthsefyll llifogydd yn well, sicrhewch eich bod yn rhoi gwybod i'ch cwmni yswiriant, oherwydd gallai

hyn arwain at ostyngiad mewn taliadau gormodedd neu bremiymau gan ddibynnu ar eich yswiriwr. Am fwy o wybodaeth ynghylch trwsio er mwyn gwrthsefyll cysylltwch â Sefydliad Yswirwyr Prydain www.abi.org.uk

Cofrestrwch i dderbyn rhybuddion

Mae gwybod pryd i roi mesurau gwarchod dros dro rhag llifogydd yn eu lle yn hollbwysig. Gall ein gwasanaeth Rhybuddion Llinell Llifogydd Uniongyrchol am ddim ddweud wrthych pryd i wneud hyn trwy anfon rhybudd i chi dros y ffôn, trwy neges destun ac e-bost. Cofrestrwch ar-lein i dderbyn Rhybuddion Llinell Llifogydd Uniongyrchol ar www.asiantaeth-amgylchedd.gov.uk neu ffoniwch Floodline ar 0845 988 1188.

Cyngor proffesiynol

Os ydych yn mynd i wneud newidiadau parhaol er mwyn gwarchod eich eiddo rhag llifogydd, argymhellwn yn gryf eich bod yn ymofyn am gyngor proffesiynol oddi wrth syrfëwr adeiladu, pensaer neu weithiwr proffesiynol arall. Gallech gysylltu â:

Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Gweler www.rics.org

Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) Gweler www.architecture.com

O ble fedraf gael mwy o wybodaeth?

Os hoffech chi gael gwell dealltwriaeth o lifogydd, edrychwch ar ein gwefan neu ffonio Floodline ar 0845 988 1188

Cofiwch gofrestru i dderbyn ein gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd Uniongyrchol 24 awr am ddim.

Mae gennym wybodaeth sy'n cynnig cyngor ymarferol i chi ynghylch beth i'w wneud cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd. Mae ar gael fel PDF, ar bapur, CDd a ffeil MP3. Gallwch eu llwytho i lawr o'n gwefan neu eu harchebu o Floodline.

Cysylltwch â'ch awdurdod lleol er mwyn canfod a yw grantiau gwarchod rhag llifogydd ar gael ar gyfer eich eiddo chi.

A hoffech gael gwybod mwy am Asiantaeth yr Amgylchedd neu am eich hamgylchedd?

Yna ffoniwch ni ar 08708 506 506 (Llun–Gwener 8–6)

Amacangyfrif o gost galwadau: 8c a 6c y funud (llinell tir safonol).
Nodwch y bydd prisiau gwahanol ddarparwyr gwasanaethau ffôn yn amrywio.

e-bost enquiries@environment–agency.gov.uk ymwelwch â'n gwefan www.asiantaeth–amgylchedd.gov.uk

llinell argyfwng 0800 80 70 60 (24awr) floodline 0845 988 1188

GEHO1009BRDM-B-P

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

Prepare your property for flooding

A guide for householders and small businesses

We are the Environment Agency. It's our job to look after your environment and make it a better place – for you, and for future generations.

Your environment is the air you breathe, the water you drink and the ground you walk on. Working with business, Government and society as a whole, we are making your environment cleaner and healthier.

The Environment Agency. Out there, making your environment a better place.

Published by:

Environment Agency

Rio House
Waterside Drive, Aztec West
Almondsbury, Bristol BS32 4UD
Tel: 0870 8506 506
Email: enquiries@environment–agency.gov.uk
www.environment–agency.gov.uk

© Environment Agency

All rights reserved. This document may be reproduced with prior permission of the Environment Agency.

October 2009

Over 5.5 million properties in England and Wales are at risk of flooding from rivers, the sea or surface water. That's one in six, which means there's a high chance one of these properties is your home or business.

It pays to prepare for flooding.
If your home or business is flooded it can be costly, not just in terms of money and time but also inconvenience and heartache.

While it's impossible to completely flood-proof a property, there are lots of things you can do to reduce the damage flooding can cause.

The key is to act now so you're prepared if there's a flood in your area.

Am I at risk of flooding?
You need to find out. It could save you money, help you protect yourself and your property – maybe even save your life.

Even if your home or business is not directly at risk of flooding from rivers or the sea, you could still be affected by surface or groundwater flooding.

Visit our website www.environment-agency.gov.uk or call Floodline on 0845 988 1188 to see if your property or business is at risk and for other useful flood information.

Now you understand the risk, here's what you can do.

Protect your property and possessions
Whether you rent or own your home or business premises, there are many things you can do to help yourself. Some are simple and temporary while others involve permanent structural work.

You can also make improvements so that even if flood water enters your property it causes less damage, so drying-out and cleaning up is faster and easier. This means you could move back home or open for business far more quickly.

The most important thing is to prepare now by buying and installing flood products in advance.

Don't wait until flooding looks likely as you won't have time to buy or put the measures in place.

Try to keep flood water out:

• **Doors:** buy purpose-built flood boards that can be installed when flooding is imminent. You can also raise door thresholds.

• **Walls and floors:** raise damp-proof brick courses. Sealing floors ('tanking') can prevent water rising through the ground.

• **Air bricks:** buy specially designed covers that are easy to place over ventilation bricks.

• **Drains and pipes:** fit non-return valves to drains and water inlet and outlet pipes.

...but accept that flood water might get in.

In the case of bigger floods this actually needs to happen otherwise the weight of the water outside might cause the building to collapse. Here are some things you can do to reduce the damage floodwater might cause inside:

•**Shelving:** put irreplaceable or valuable items on high-mounted shelves.

• **Home entertainment:** fix your audio-visual equipment, for example your TV and hi-fi, to the wall about 1.5 metres above floor level.

• **Skirting:** fit water-resistant skirting boards, or varnish them.

• **Pump:** fit a pump in a basement or under-floor void to extract flood water.

• **Walls:** dry-line. Use horizontal plasterboard, or lime-based plaster instead of gypsum. Get a special draining system for cavity walls.

• **Flooring:** lay tiles with rugs rather than fitted carpets, which often need to be replaced after a flood.

• **Doors and windows:** install synthetic or waxed windows and doors, or varnish.

• **Kitchen and bathroom:** use water-resistant materials such as stainless steel, plastic or solid wood rather than chipboard. Where possible raise fridges and appliances on plinths.

• **Electricals:** raise electrical sockets, fuse boxes, controls and wiring to at least 1.5 metres above floor level. If rewiring, bring cables down the wall to the raised socket so that cabling isn't affected.


Kitchen units and appliances
Doors and windows
Flooring
Shelving
Electrical sockets
TV and hi-fi
Air brick covers
Walls
Drains and pipes
Flood sacks
Door guards

How much will it cost?

Making your property resilient to floodwater will limit the distress and damage caused by flooding, which means less costly repairs and less time out of your home or business premises.

The cost of purchasing and installing products to keep floodwater out of your property will depend on the size of your property and the type of flood you want to protect against.

For example, according to the ABI, to protect your property against shallow flash floods could cost between £2,000 - £6,000.

To keep water out during periods of prolonged flooding will take bigger changes and could cost between £20,000 -£40,000.

Buying products

There is a variety of products that you can purchase. A comprehensive list of these can be found in 'The Blue Pages' directory on the National Flood Forum's website www.floodforum.org.uk.

The Blue Pages is an independent directory of products, builders, suppliers and insurers. It's designed to provide information on all aspects of flood protection and resilience products.

Quality check

When you buy a flood product check it's been properly tested and is up to the job – it should display the BSI Kitemark or equivalent accreditation for the national quality standard PAS 1188.

The British Standards Institution (BSI) maintains a list of all manufacturers of flood protection products that have been tested and achieved Kitemark accreditation. See www.kitemark.com

The Flood Protection Association represents manufacturers and designers of flood defence products. See www.floodprotectionassoc.co.uk

Insurance

Check your buildings and contents insurance policies to see what cover they provide for flood damage.

If you make changes to your property so it's more resilient to flooding make sure you let your insurance company know as this this might result in a reduction in excess charges or premiums depending on your insurer.

For more information about resilient repair contact the Association of British Insurers www.abi.org.uk.

Sign up for warnings

Knowing when to put temporary flood protection measures in place is crucial. Our free Floodline Warnings Direct service can tell you when to do this by sending you a warning by phone, text and email.

Sign up for Floodline Warnings Direct online at www.environment-agency.gov.uk or call Floodline on 0845 988 1188.

Professional advice

If you're going to make permanent changes to protect your property against flooding, we strongly recommended that you seek professional advice from a building surveyor, architect or other professional. You could contact:

Royal Institution of Chartered Surveyors (RICS). See www.rics.org

Royal Institute of British Architects (RIBA). See www.architecture.com

Where can I get more information?

If you would like to get a better understanding of flooding, see our web site or call Floodline on 0845 988 1188.

Don't forget to sign up to our free 24 hour Floodline Warnings Direct service.

We have information offering you practical advice on what to do before, during and after a flood. It's available in PDF, print, CD and MP3 file. You can download them from our website or order them from Floodline.

Contact your local authority to find out if flood protection grants are available for your property.

Would you like to find out more about us, or about your environment?

Then call us on
08708 506 506 (Mon–Fri 8–6)

Approximate call costs: 8p plus 6p per minute (standard landline).
Please note charges will vary across telephone providers.

email
enquiries@environment–agency.gov.uk
or visit our website
www.environment–agency.gov.uk

incident hotline 0800 80 70 60 (24hrs)
floodline 0845 988 1188

GEHO1009BRDM-B-P